Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Dewi Sant**
**Ham Lane East**
**Llanilltud Fawr**
**Bro Morgannwg**
**CF61 1TQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Dewi Sant ar gyrion tref Llanilltud Fawr, ym Mro Morgannwg.

Mae 110 o ddisgyblion rhwng 3 ac 8 oed ar y gofrestr. Maent wedi'u trefnu'n bum dosbarth sy'n cynnwys 30 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw tua 11% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 11% o'r disgyblion yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaleddau Cymru. Mae gan oddeutu 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn 2015-2016 yn £5,170 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mroi Morgannwg yw £5,170 a'r lleiafswm yw £2,735. Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn y safle 1af o'r 79 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Lleolir yr ysgol mewn adeilad newydd a agorwyd ym mis Medi 2015. Mae'r pennaeth yn ei swydd yn rhan-amser ers Medi 2011 ac yn amser llawn ers 2014. Dyma arolygiad cyntaf yr ysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd bod:

- disgyblion ieuengaf y Cyfnod Sylfaen yn ymgartrefu'n gyflym ac yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr hyderus
- bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn pryderu
- rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd
- yr ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol
- pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth a chreu ethos lle mae parch tuag at ei gilydd yn werth craidd

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn agweddau o lythrennedd a rhifedd mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm
- nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwaith arbrofol mewn gwyddoniaeth
- nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol
- prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a'u cyfoedion yn llwyddiannus
- nid yw asesiadau athrawon ar adegau'n cyfateb i'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd effeithiol i ysgogi cydweithio llwyddiannus ymysg staff
- yr uwch dîm rheoli newydd yn dangos ymrwymiad pwrpasol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau
- gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i wella ansawdd
- yr ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau a lles disgyblion yn effeithiol
- gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu profiadol i fodloni anghenion pob disgybl yn bwrpasol

Fodd bynnag:

- mae'n rhy gynnar i farnu effaith strategaethau newydd i godi safonau
- nid yw'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion lleol a chenedlaethol, er enghraifft

mabwysiadu'r strategaethau llythrennedd a rhifedd yn llawn a gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu
- nid yw rôl strategol y corff llywodraethol wedi datblygu'n llawn i herio arweinwyr fel ffrind beirniadol
- nid yw'r ysgol yn defnyddio data profion yn ddigon pwrpasol i adnabod materion sydd angen eu gwella

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod medrau rhifedd a llythrennedd yn cael eu cynllunio'n fwriadus ar draws y cwricwlwm

A3 Defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu addas yn gyson ymhob dosbarth a sicrhau bod asesiadau athrawon yn seiliedig ar werthusiad cadarn o safonau disgyblion

A4 Mireinio rolau a chyfrifoldebau yr uwch dîm rheoli

A5 Sicrhau defnydd pwrpasol o adroddiadau monitro'r ysgol gan weithredu'n fwy effeithiol ar ganfyddiadau sy'n deillio ohonynt

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau bron pob disgybl yn is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r medrau ganddynt i siarad yn gynyddol gywir a hyderus, er bod tuedd ganddynt i ddefnyddio geiriau Saesneg. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon a gall y mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2 gynnal sgyrsiau byr yn Saesneg ac yn y Gymraeg yn unol â'u hoed a'u gallu. Yn Saesneg, mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu'n ddeallus a gallant mynegi eu hunain yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau llafar yn y Gymraeg mor aeddfed, ac mae tuedd i lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol siarad Saesneg yn aml mewn gwersi ac yn ystod amseroedd chwarae.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safon darllen mwyafrif y disgyblion yn effeithiol i'w hoed. Maent yn darllen ar goedd gyda lefel gynyddol o gywirdeb a rhuglder. Mae'r mwyafrif yn gyfarwydd â strategaethau sylfaenol darllen ac yn deall y testun yn lled gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn gyfystyr â'u hoed a'u gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn darllen ar goedd yn eglur ac yn defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall yr ystyr yn effeithlon. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r disgyblion sy'n ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth astudio'r Celtiaid. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dechrau defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth yn bwrpasol, er enghraifft drwy gip-ddarllen ar gyfer dealltwriaeth o'r testun yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran eu medrau ysgrifennu. Mae'r mwyafrif yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn gwneud ymdrech dda i sillafu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ddefnyddio ystod o ansoddeiriau perthnasol i greu effaith mewn darnau byr o ysgrifennu, er enghraifft i ddisgrifio cymeriad dieithr. Maent yn ysgrifennu'n briodol at amrywiaeth o ddibenion mewn brawddegau llawn, gan ddangos gafael pwrpasol ar atalnodi, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am fedydd babi. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu anibynnol yn ddigon aml ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Maent yn ystyried y gynulleidfa yn addas, gan ddewis geiriau priodol, iaith ddisgrifiadol ac wrth gynnwys ffeithiau pwrpasol i gefnogi'r darnau ysgrifennu, er enghraifft cyfrannu i ddyddiadur 'Robin Hood'. Gall mwyafrif y disgyblion gychwyn brawddegau mewn

amrywiaeth o ffyrdd gyda threfn geiriau, ymadroddion a chymalau priodol. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o atalnodi yn addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. Nid yw cyflwyniad gwaith na llawysgrifen llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ddigon graenus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddefnyddio eu medrau sylfaenol rhif. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio eu medrau rhifedd yn bwrpasol mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif ac yn defnyddio medrau mesur, fel hyd a darllen amser yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd i resymu ac wrth gasglu, cofnodi a dadansoddi data yn ddigon aml. Prin hefyd yw eu defnydd o'u medrau rhifedd ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Gan fod yr ysgol yn gymharol newydd, dim ond data perfformiad dros ddwy flynedd sydd ar gael, a hynny ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen. Oherwydd bod maint y carfanau'n fach ar gyfer y ddwy flynedd, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail y data hwn.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar y deilliannau disgwyliedig wedi bod yn y 25% uchaf dros ddwy flynedd ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae tueddiad y deilliannau uwch na'r disgwyl ar i fyny mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y deilliant ddisgwyliedig nac ar y deilliant uwch na'r disgwyl dros gyfnod o amser.

**Lles: Da**

Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn pryderu. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Mae llawer yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw gallu llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol wedi datblygu cystal ar draws yr ysgol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn casglu barn a sylwadau cyd-ddisgyblion ac yn falch o'u hymdrechion i drefnu offer ar gyfer sesiynau amser chwarae. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill. Mae disgyblion yn cydweithio'n agos gyda'r pennaeth i osod targedau sy'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol ac yn rhaeadru'r wybodaeth gyda phawb.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rôl weithredol mewn nifer o weithgareddau cymunedol. Enghraifft dda o hyn yw rhan yr ysgol yng ngwasanaeth cofio blynyddol y dref a gorymdaith llusernau Llanilltud Fawr.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi codi yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cadarn sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn bwrpasol. Mae darpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ymwreiddio'n llwyddiannus ar gyfer llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol. Mae'r gwibdeithiau pwrpasol a chlybiau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau ac ehangu medrau corfforol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynllunio themâu cyfoes ac yn sicrhau dilyniant priodol ar ddysgu blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio hir dymor yn sicrhau cydbwysedd pynciol, er enghraifft, mewn gwaith arbrofol gwyddoniaeth nac i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth yn gynyddol. Ceir cyfleoedd cyson a phriodol i ddatblygu medrau allweddol disgyblion.

Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith ond nid yw'r gweithgareddau bob amser yn dangos dilyniant a pharhad yn ddigon bwriadus. Nid oes cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llawn ar draws ystod o bynciau.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau pwrpasol sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw nifer ac ansawdd yr ymweliadau oddi ar y safle fel i Gastell Caerdydd a'r cyfle i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd cyffrous i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang, yn cynnwys wythnosau amlddiwylliannol diddorol. Mae disgyblion yn wybodus am fasnach deg a'i heffaith ac mae eu hymgyrch i godi arian ar gyfer nifer o elusennau yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion am dlodi. Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at ailgylchu ac arbed dŵr.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon a staff cynorthwyol yn annog ymddygiad disgyblion yn dda. Mae cydberthynas sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion ymhob dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar yn yr ysgol.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn atgoffa disgyblion o'u dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cyflwyno amcanion dysgu yn glir. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion drafod ac yn defnyddio cwestiynau penagored i wella'u dealltwriaeth a'u

helpu i ymhelaethu ar eu hatebion. Lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflwyniadau'n rhy hir, mae cyflymder y gwersi'n rhy araf, ac nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus.

Mae pob un o’r staff yn rhoi adborth llafar clir a rheolaidd i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn bwrpasol pan fydd angen. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Yn yr arfer orau, mae marcio yn dechrau helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Mae athrawon yn dechrau annog disgyblion i arfarnu ar lafar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio’n gyson ar draws yr ysgol a phrin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a’u cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cofnodi eu cynnydd yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw asesiadau athrawon ar adegau’n cyfateb i'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi ac mewn llyfrau. Defnyddiant system olrhain yr ysgol yn briodol i nodi cyflawniadau disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn fanwl a llawn gwybodaeth, gyda chyfleoedd da i rieni ymateb. Maent yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle teimla’r disgyblion yn ddiogel. Mae’n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn galluogi disgyblion i gadw’n heini. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb, sydd wedi arwain at welliant.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli a thrwy weithgareddau ehangach y cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd, straeon moesol a Beiblaidd sy’n cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer nodi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn rhoi strategaethau ymyrraeth priodol ar waith. Mae’r rhain yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da dros gyfnod. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy’n mynd i’r afael ag anghenion disgyblion yn briodol. Mae staff yn cynnwys rhieni’n llawn wrth adolygu cynllun addysg eu plentyn.

Mae’r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn dda, sy’n sicrhau bod disgyblion yn derbyn gwybodaeth a chymorth proffesiynol, gan gynnwys cefnogaeth lle bo angen. Enghraifft o hyn yw’r cydweithio rhwng seicolegydd addysgol, athrawon arbenigol darllen a’r ysgol i ddarparu sesiynau drws agored ar gyfer rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, sy’n trin disgyblion yn gyfartal. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth a chreu ethos lle mae parch tuag at ei gilydd yn werth craidd. Caiff pob disgybl yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae’r adeilad newydd yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Ceir digon o le mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Ceir adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes, sy’n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Enghreifftiau da o hyn yw’r Berllan, sef ardal gymunedol yng nghanol yr ysgol ble lleolir y llyfrgell ac adnoddau i ddatblygu medrau technoleg a gwybodaeth y disgyblion. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau o ansawdd uchel ar gyfer diwallu anghenion y Cwricwlwm, gan gynnwys anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ardaloedd allanol ar y safle newydd yn parhau i ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus o fewn y dosbarthiadau ac ar hyd coridorau’r ysgol sy’n ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae safon glanweithdra yn uchel, ac mae staff yn cynnal adeilad a thir yr ysgol yn dda. Mae safle’r ysgol yn ddiogel ar gyfer disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod ers ei phenodiad, mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd effeithiol i ysgogi cydweithio llwyddiannus ymysg staff. Mae agweddau i wella ansawdd y ddarpariaeth er mwyn sicrhau cwricwlwm cyson ar draws yr ysgol yn amlwg.

Mae’r uwch dîm rheoli yn dangos ymrwymiad priodol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau perthnasol. Er enghraifft, mae cynllun mathemateg pen yn dechrau gwella agweddau o fedrau rhif y disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae’r strategaethau sydd wedi’u rhoi ar waith i wella ansawdd y dysgu ac addysgu’n rhy ddiweddar i arfarnu’r effaith ar safonau yn llawn.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau priodol yn glir. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod blaenoriaethau a chynnydd yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad sefydlog ar gyfer y staff i gyd.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r ysgol wedi cyflwyno strategaethau llwyddiannus i wella presenoldeb y disgyblion ac i sicrhau bod darpariaeth bwrpasol i wella lles a chyflawniad disgyblion mwy bregus. Mae’r gwaith o ymgorffori strategaethau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol yn datblygu’n addas. Fodd bynnag, nid yw’r gwaith hwn wedi gwella safonau a chyflawniad disgyblion digon eto.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn gydwybodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o safonau disgyblion a’r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Yn ddiweddar, mae’r llywodraethwyr wedi bod yn rhan o brosesau monitro gwersi yn yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth briodol am gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Fodd bynnag, maent yn rhy ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth a’r awdurdod lleol, ac nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi gwreiddio digon i’w galluogi i ddal yr ysgol i gyfrif yn llawn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i wella ansawdd. Fel rhan o waith hunanarfarnu’r ysgol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol, fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, trafod gwaith gyda’r disgyblion a holi barn y llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae’r ysgol hefyd yn dadansoddi a defnyddio data asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon ac mae hyn yn dechrau hybu dealltwriaeth y staff o berfformiad yr ysgol o’i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio data profion yn ddigon pwrpasol i adnabod materion sydd angen eu gwella. Mae’r adroddiadau monitro pynciol yn canolbwyntio’n ormodol ar ddarpariaeth ar draul safonau, ac nid ydynt yn ddigon arfarnol.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau’r ysgol yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw’n adnabod yn ddigon manwl yr holl agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion a phriodoldeb cynlluniau tymor hir a chanolig. Mae’r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ar adegau ac yn brin o ran effaith y gweithgaredd.

Mae cysylltiad priodol yn bodoli rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol. Mae arweinwyr yn adolygu’r cynllun datblygu blaenorol yn bwrpasol ac mae hyn yn nodi’r cynnydd a wnaed. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi addasu’r polisi marcio ac mae’r strategaethau newydd yn dechrau cael effaith ar wella gwaith y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau cadarn sy’n cyfrannu’n dda at wella safonau a lles disgyblion yn effeithiol. Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau’r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Mae’r arian yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i brynu adnoddau i gyfoethogi’r profiadau a gynigir i ddisgyblion, er enghraifft i brynu caledwedd technoleg gwybodaeth ac i sicrhau cyfleoedd i bob disgybl ymweld â fferm gyfagos. Mae’r ysgol yn hysbysu’r rhieni’n bwrpasol am brofiadau dysgu ac yn cynnig nosweithiau cwricwlaidd yn rheolaidd sy’n cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar fedrau darllen y disgyblion ifancaf.

Mae partneriaeth lwyddiannus iawn yn bodoli gyda’r cylch meithrin cyfagos er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn addysg gynnar disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau lleol sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliad i fwyty Eidalaidd y dref yn ymestyn ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant gwahanol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol â'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.  Fodd bynnag, mae anghysondebau yn asesiadau athrawon ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda'r gymuned leol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol.  Enghraifft o hyn yw cyfraniad y disgyblion yng ngwasanaeth blynyddol y cofio.  Yn ogystal, gwneir defnydd buddiol o gymorth unigolion o'r gymuned i gefnogi gweithgareddau disgyblion, er enghraifft y clwb pêl- droed.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu profiadol i fodloni anghenion pob disgybl yn bwrpasol.  Mae cynorthwywyr yn cynnig cymorth gwerthfawr i athrawon, ac fe gânt ddylanwad cadarnhaol ar godi safonau cyrhaeddiad a gwella lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar gyfer lleihau baich gwaith athrawon.  Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu cynnydd disgyblion.  Mae pob aelod o staff yn elwa ar hyfforddiant addas, sy'n cael ei drefnu ar sail anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r athrawon yn rhan o gymunedau ddysgu fuddiol, er enghraifft er mwyn datblygu medrau rhifedd a darllen y disgyblion.  O ganlyniad, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion wedi gwella ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau gofalus ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.  Mae gwariant ar gyfer cynnal yr ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn dda. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer y gwarged i wneud trefniadau pwrpasol i ddatblygu'r ysgol ymhellach y flwyddyn nesaf.

O ystyried safonau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 18 | 12<br>67% | 6<br>33% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 18 | | 14 | 4 | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | 78% | 22% | | |
| | | | 95% | 5% | | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 18 | | 8 | 10 | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | 44% | 56% | | |
| | | | 77% | 23% | | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 18 | | 9 | 9 | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | 50% | 50% | | |
| | | | 84% | 16% | | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | | 9 | 16 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | | 36% | 64% | 0% | 0% | | |
| | | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | | 12 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | | 48% | 48% | 4% | 0% | | |
| | | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 25 | | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 22 | | 7 | 14 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | | 32% | 64% | 5% | 0% | | |
| | | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | | 2 | 14 | 4 | 2 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | | 9% | 64% | 18% | 9% | | |
| | | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | | 6 | 16 | 2 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | | 25% | 67% | 8% | 0% | | |
| | | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 24 | | 10 | 13 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | | 42% | 54% | 0% | 4% | | |
| | | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | | 4 | 13 | 5 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | | 18% | 59% | 23% | 0% | | |
| | | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 9 | 11 | 3 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 38% | 46% | 12% | 4% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 5 | 14 | 4 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 22% | 61% | 17% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 10 | 12 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 40% | 48% | 12% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 22 | 9 | 11 | 1 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 50% | 5% | 5% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 6 | 16 | 1 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 67% | 4% | 4% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 11 | 12 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 46% | 50% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 6 | 11 | 2 | 1 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 30% | 55% | 10% | 5% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 22 | 4 | 16 | 2 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 18% | 73% | 9% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 5 | 2 | 3 | 0 | 0 | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 25 | 9 | 12 | 4 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 36% | 48% | 16% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 9 | 11 | 1 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 43% | 52% | 5% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Lona Jones-Campbell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Jennings | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.